



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi Cymru 2019

Ymgynghoriad ar ddynodi Porth Eirias Bae Colwyn, Conwy yn ddŵr ymdrochi

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Mawrth 2019

**Trosolwg** Nod yr ymgynghoriad hwn yw holi barn pobl am ein cynnig i ddynodi Porth Eirias Bae Colwyn yn ddŵr ymdrochi o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer tymor ymdrochi 2019.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adnabod dyfroedd ymdrochi poblogaidd yng Nghymru, monitro ansawdd eu dŵr a diweddarau ymdrochwyr ar ansawdd y dŵr yn y safleoedd hyn. Yng Nghymru mae'r tymor ymdrochi'n rhedeg rhwng 15 Mai a 30 Medi.

Un o ofynion y Rheoliadau yw bod Llywodraeth Cymru'n adolygu a chyhoeddi, yn flynyddol, rhestr o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru.

**Sut i ymateb** Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn 1 Mawrth 2019 drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

**E-bost:** [water@gov.wales](mailto:water@gov.wales)

**Drwy'r post:**

Y Gangen Ddŵr  
Ymgynghoriad Dyfroedd Ymdrochi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3 NQ

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, dylech e-bostio: [water@gov.wales](mailto:water@gov.wales) neu ffonio: 03000255509

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Rhoddir gwybodaeth am ddynodi dyfroedd ymdrochi a'u hansawdd yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhoddir y dolenni isod:

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/bathing-water-quality-and-beaches/?skip=1&lang=cy>  
<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/bathing-water-quality-and-beaches/idnewwaters/?skip=1&lang=cy>

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## **Rhagarweiniad Pwrpas yr Ymgynghoriad**

Nod yr ymgynghoriad hwn yw holi barn pobl am ein cynnig i ddynodi Porth Eirias Bae Colwyn yn ddŵr ymdrochi o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer tymor ymdrochi 2019.

O dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru restru'r holl ardaloedd ymdrochi poblogaidd yng Nghymru'n flynyddol. Amcan y Rheoliadau yw gwarchod iechyd ymdrochwyr rhag llygredd carthion drwy fonitro enterococci'r coluddion ac E.coli a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd fel y gall pobl wneud penderfyniadau gwybodus am ble i ymdrochi.

Nifer yr ymdrochwyr yw'r maen prawf y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddefnyddio wrth ystyried a yw'n briodol dynodi safle, ac yn benodol yng nghyswllt unrhyw seilwaith neu gyfleusterau a ddarperir, neu fesurau eraill a gymerir i hyrwyddo ymdrochi ar y safle.

### **Y sefyllfa bresennol**

Ar hyn o bryd mae gan Gymru 104 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n profi ansawdd dŵr y dyfroedd ymdrochi hyn yn ystod y tymor ymdrochi, sydd yng Nghymru'n rhedeg o 15 Mai tan 30 Medi. Disgrifir dyfroedd ymdrochi dynodedig fel rhagorol, da, boddhaol neu wael.

Yn 2018, roedd pob un o'r 104 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru'n cwrdd â'r dosbarthiadau Ewropeaidd ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi.

Ers 2016 rhaid defnyddio symbolau tymor ymdrochi safonol ym mhob dŵr ymdrochi dynodedig i ddangos ansawdd y dŵr. Rhoddir y ddolen isod i wefan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnwys y symbolau hyn:

<http://ec.europa.eu/environment/water/water-bathing/signs.htm>

### **Cais i ddynodi Porth Eirias Bae Colwyn yn ddŵr ymdrochi**

Cawsom gais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ystyried dynodi Porth Eirias Bae Colwyn (NGR 285566 379291) yn ddŵr ymdrochi o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer tymor ymdrochi 2019.

### **Tystiolaeth a gwybodaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o blaid y cais i ddynodi**

Porth Eirias Bae Colwyn yw un o draethau glan môr traddodiadol Gogledd Cymru ers oes Fictoria. Yn y blynyddoedd diwethaf mae ardal y traeth ym Mae Colwyn wedi'i thrawsnewid fel rhan o'r datblygiad glan môr gwerth miliynau ym Mhorth Eirias (y 'parc ger y môr'). Mae'n cynnwys canolfan chwaraeon dŵr, siopau a bwyty. Mae datblygiad glan môr Porth Eirias yn prysur ddod yn atyniad poblogaidd iawn ar hyd arfordir y Gogledd. Mae yma fistro newydd sy'n cael ei redeg gan y cogydd Bryn Williams o Ddinbych ynghyd ag ystod o hyfforddiant chwaraeon dŵr gan Ganolfan Chwaraeon Dŵr

Bae Colwyn. Y traeth ei hun yw'r holl reswm pam fod y dref yma o gwbl. Mae yma sribyn hir o dywod euraid gyda morglawdd a phromenâd yn gefn iddo. Nid oes prinder cyfleusterau ar hyd y promenâd nac ychwaith yn y dref, sydd ond ychydig funudau i ffwrdd ar droed.

Yn 2013 cafodd y traeth ei ailgyflenwi gyda thua 500,000 tonnell o dywod. Dechreuodd y gwaith o ailddatblygu'r promenâd a'r morglawdd ym Mehefin 2013, gyda'r gwaith diweddaraf wedi'i gwblhau yn 2018.

Mae traeth Bae Colwyn yn wych ar gyfer nofio, chwaraeon dŵr a physgota, gyda beicio a cherdded ar hyd llwybr yr arfordir. Mae'r traeth wedi'i gynnwys ers blynyddoedd yn y *Good Beach Guide*. Mae'r sribyn arfordir o Landrillo-yn-Rhos i Fae Colwyn ac ymlaen wedi cael ei drawsnewid gyda phrosiectau ac atyniadau newydd yn rhoi ail wynt i'r ardal. Rheolir Traeth a Phromenâd Bae Colwyn gan y Gwasanaeth Harbwr ac Arfordir, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ni chaniateir cŵn ar lan y môr, gan gynnwys ar y traeth, y blaendraeth nac ar unrhyw lechwedd neu risiau'n arwain i'r traeth, rhwng 1 Mai a 30 Medi.

Mae cerbydau'r cyhoedd wedi eu gwahardd yn llwyr rhag mynd ar y traeth. Mae cychod / jet-sgis ac yn y blaen yn cael eu lansio o Lithrfa Porth Eirias. Er mwyn diogelu ymdrochwyr a defnyddwyr eraill y traeth, gorfodir terfynau cyflymder a pharthau gwahardd cychod / jet-sgis ar y traeth ac mae Arolygwyr Arfordir ar batrôl, ar y tir ac ar y dŵr, bron yn ddyddiol drwy gydol y prif dymor yn yr haf.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae Cyngor Bwrdeistref Cyngor Conwy wedi cadarnhau eu bod yn holi barn grwpiau cymunedol lleol gan nodi, pan ddatblygwyd Porth Eirias, fod dyluniad a chyfleusterau penodol at ddefnydd y gymuned wedi eu rhoi yn eu lle. Mae'r Cyngor hefyd wedi hysbysu fod yr Adran Dwristiaeth a'r Cynghorau Cymuned o blaid y cais hwn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymgynghori â grwpiau defnyddwyr yn cynnwys Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn.

## Cyfleusterau

Mae'r cyfleusterau ar y safle'n cynnwys:

- Parcio.
- Toiledau cyhoeddus i ddynion / merched a chawodydd ym Mhorth Eirias, a thoiledau cyhoeddus ar draws y ffordd i adeilad Porth Eirias.
- Dyfeisiau achub y cyhoedd – bwiau achub a rhaffau wrth bwyntiau mynediad ar hyd y traeth.
- Cyfleusterau cymorth cyntaf, gan gynnwys arwyddion diogelu'r cyhoedd a diffibriliwr yng nghaffi Porth Eirias.
- Hysbysfyrdau'n dangos amseroedd y llanw, manylion gweithwyr traeth, ansawdd y dŵr a map 'rydych chi yma' ynghyd â chyfleusterau wedi eu marcio ar y map, a gwybodaeth amgylcheddol.

- Mae dau arolygydd arfordir ar ddyletswydd rhwng Mai a Medi, yn codi sbwriel ar y traeth a'r promenâd yn ddyddiol.
- Darperir biniau ailgylchu a biniau sbwriel. Mae gwaith gwirfoddol i lanhau'r traeth hefyd yn cael ei wneud drwy'r flwyddyn, gan ysgolion lleol a gwirfoddolwyr. Defnyddir peiriant cribinio'n rheolaidd dros dymor yr haf.
- Mae wi-fi am ddim ar gael ar y traeth.

## **Trafnidiaeth**

Lleolir Bae Colwyn yng nghanol arfordir Gogledd Cymru ac mae'n un o'r trefi hawsaf i'w chyrraedd, p'un ai ar fws, trê'n, beic neu yn y car.

### **Yn y car**

Mae gwibffordd yr A55 yn cysylltu i'r rhwydwaith draffyrdd o ogledd-gorllewin Lloegr. O ganolbarth a de Lloegr, dylid defnyddio'r M6, M5 a'r M1. I ddilyn llwybr golygfaol o ganolbarth Lloegr dylid cymryd yr A5 heibio'r Amwythig a Llangollen.

### **Ar fws / coets**

Mae bysus National Express yn teithio o'r rhan fwyaf o drefi yn y DU.

### **Ar y trê'n**

Mae gwasanaethau trê'n uniongyrchol yn teithio i drefi poblogaidd arfordir Gogledd Cymru o'r rhan fwyaf o Brydain.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi darparu Arolwg Defnyddwyr Traeth 2017 yn Atodiad 1.

## Atodiad 1

### Arolwg Defnyddwyr Traeth 2017

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi darparu arolwg o nifer yr ymdrochwyr a defnyddwyr y traeth rhwng 30 Ebrill a 28 Awst 2017. Cafodd yr arolwg ei wneud ar yr adegau prysuraf, gan gynnwys dros wyliau banc ac ar benwythnosau.

Dyddiad	Nofwyr	Padlwyr	Defnyddwyr eraill yr ardal ymdrochi	Gwirio niferoedd: disgrifiad byr (canlyniadau cyfrif pobl)
30/04/17			220	Arolygydd Arfordir yn cyfrif nifer defnyddwyr y traeth / chwaraeon dŵr
01/05/17	50		170+	“
02/05/17			20	“
05/05/17	2		18	“
06/05/17			21	“
07/05/17	10		290	“
08/05/17			22	“
09/05/17			8	“
12/05/17			60	“
13/05/17			520 (digwyddiad traeth)	“
14/05/17	6		280	“
15/05/17			20	“
16/05/17			50	“
19/05/17			100+	“
20/05/17	2		16	“
21/05/17	4		70	“
22/05/17			10	“
25/05/17	6		260	“
26/05/17	8		310+	“

27/05/17	12		440+	“
28/05/17	85		350+	“
29/05/17	10		325+	“
03/06/17	15		460+	Arolygydd Arfordir yn cyfrif nifer defnyddwyr y traeth / chwaraeon dŵr
04/06/17			170+	“
05/06/17			0 (tywydd gwael)	“
06/06/17			0 (tywydd gwael)	“
09/06/17			83	“
11/06/17	10		112	“
12/06/17	4		25	“
13/06/17			12	“
16/06/17	20+		85	“
18/06/17	100+		560+	“
19/06/17	40		210	“
20/06/17	15		86	“
23/06/17	0		50	“
25/06/17	10		120	“
26/06/17			55	“
30/06/17			6	“
01/07/17	15		220	Arolygydd Arfordir yn cyfrif nifer defnyddwyr y traeth / chwaraeon dŵr
02/07/17	20+		360+	“
03/07/17			65	“
07/07/17			30	“
08/07/17	15		280+	“
09/07/17	20		330	“



10/07/17			25	“
13/07/17	10		175	“
14/07/17	6		320	“
16/07/17	16		345	“
17/07/17	12		220	“
18/07/17	22		220	“
21/07/17			14	“
22/07/17	20		165	“
23/07/17	30		325	“
24/07/17	30		210	“
25/07/17	50+		525	“
28/07/17	10		175	“
29/07/17	30		165	“
30/07/17	25		228+	“
31/07/17	6		100	“
06/08/17	10		150+	“
07/08/17	20		270+	“
11/08/17	20		160+	“
12/08/17	25		290+	“
20/08/17	40		340+	“
21/07/17	20		220+	
22/08/17	80		540	“
25/08/17	400		325+	“
26/08/17	50		420	“
27/08/17	50		450	“
28/08/17	100+		650+	“

Enw a manylion cyswilt y person a wnaeth yr arolwg

Mr Trevor Foulkes, d/o Swyddfa Harbwr Conwy

**Ffurflen ymateb i'r  
ymgyngoriad**

Eich enw:

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn:** Beth yw eich sylwadau am y cynnig i ddynodi Porth Eirias Bae Colwyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer 2019 o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013?

Rydym wedi gofyn un cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, dylech ddefnyddio'r gofod isod i'w hadrodd:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch yma: